PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD IAU, 10 MAI 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Howells(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Gordon, Gavin Hill-John, Parkhill, Robson a/ac Sattar |

75 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Ebrahim.

76 : DATGAN BUDDIANNAU

Derbyniwyd datganiad buddiant gan y Cynghorydd Gordon o ran eitem 4. Datganodd y Cynghorydd Gordon fuddiant rhagfarnol gan bod hi'n un o ymddiriedolwyr Grassroots, Canolfan Ieuenctid Canol y Ddinas.

77 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2018 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

78 : CYNLLUN CYFLAWNI'R GYFARWYDDIAETH POBL A CHYMUNEDAU

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorydd Lynda Thorne, Aelod Cabinet – Tai a Chymunedau; y Cynghorydd Sarah Merry, Aelod Cabinet – Dirprwy Arweinydd, Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau; Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol – Pobl a Chymunedau; Jane Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Tai a Chymunedau; a Nick Blake, Rheolwr Cymorth Busnes, i'r cyfarfod.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Thorne gan y Cadeirydd i wneud datganiad lle dywedodd ei bod yn bleser iddi gyflwyno'r cynllun, rhan o Gyfarwyddiaeth Pobl a Chymunedau newydd ar gyfer 2018-2019. Roedd y Cynghorydd Thorne, yn benodol, yn llawn cyffro wrth weld datblygiad arfaethedig y Rhaglen Hybiau a Lles Cymunedol, gan gynnwys cwblhau Hyb Cymunedol Llaneirwg yr haf hwn. Roedd yn dda gan y Cynghorydd Thorne nodi y cwblhawyd hybiau cymunedol newydd Llanedern a Llanisien yn ystod 2017/18.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Merry gan y Cadeirydd i wneud datganiad lle dywedodd ei bod yn bleser ganddi weld bod dros 300 o bobl ar y Cynllun Dysgu Oedolion yn y Gymuned i Weithio. Er ei bod yn bwysig gweithio gyda phobl ifanc i ddiwallu anghenion yr economi ddatblygol, nododd y Cynghorydd Merry ei bod hefyd yn bwysig gweithio gyda phreswylwyr hŷn i wella'u sgiliau gwaith fel y gall pawb elwa ar y rhaglen hon.

Cafodd yr aelodau gyflwyniad ar Gynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth Pobl a Chymunedau; yna gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr aelodau.

- Roedd yr aelodau o’r farn mai Cynllun Cyflawni Cyfarwyddiaeth syml oedd hwn; fodd bynnag, roedd pryderon ganddynt ynghylch y gosodiad/fformat ar ddechrau’r ddogfen.

- Cyfeiriodd yr aelodau at dargedau gan ofyn a ydynt yn cael eu hadolygu pan gânt eu cyflawni ac a yw’r broses o bennu targedau’n ddigon cadarn. Esboniodd y swyddogion bod targedau’n cael eu hadolygu ond bod targedau newydd yn fwy anodd eu hasesu i ddechrau. Gyda thargedau uchel megis cyfradd foddhad 95%, mae hyd yn oed cynnal y lefel honno yn ddigon heriol, yn benodol gan fod amrywiaeth newidiol o wasanaethau’n cael eu cyflwyno.

- Trafododd yr aelodau hybiau a’r gwasanaethau cynghori a ddarperir, yn benodol yn y wardiau canolog. Roedd yr aelodau’n ystyried y dylai gwasanaethau gael eu teilwra i wasanaethau megis y rhai ariannol ac i mewn i’r gwaith gan fod llawer o bobl ar gyflogau isel ac sydd â sawl swydd cyflog isel neu sydd ar gontractau dim oriau. Nododd yr aelodau hefyd y dylid adlewyrchu’r sector cyflog isel mewn targedau. Roedd yr Aelod Cabinet o’r farn bod y newidiadau a roddwyd ar waith yn mynd i’r afael â hyn: o’r blaen, roedd cyfeiriad pobl yn penderfynu pa wasanaethau y gallent eu derbyn, ond erbyn hyn gall pawb fanteisio ar wasanaethau i mewn i’r gwaith. Derbyniodd yr Aelod Cabinet nad oedd hybiau ym mhob ardal ond bod y Cyngor bob amser yn chwilio am gyfleoedd i bartneriaid ddarparu gwasanaethau. Ychwanegodd y swyddogion fod mwy na 30 lleoliad bellach ar draws y ddinas sy’n darparu gwasanaethau, nid trwy hybiau’n unig.

- Gofynnodd yr aelodau sut mae’r Cyngor yn hyrwyddo Gwasanaethau Cymorth Cyflogaeth i fusnesau a sut caiff y porth gwirfoddoli ei hyrwyddo. Esboniodd y swyddogion fod staff penodol ar gael erbyn hyn ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Cyflogaeth; mae gan y gwasanaethau hefyd gysylltiadau â Datblygu Economaidd sy’n cydgysylltu â busnesau newydd ac yn helpu wrth recriwtio ac ati. O ran y Porth Gwirfoddoli, dywedodd y swyddogion y cafwyd lansiad meddal ychydig o fisoedd yn ôl i sicrhau ei fod yn addas i’r diben. Roedd angen peth mireinio, megis ychydig o waith ar weithgareddau penodol, ac roedd rhaid cywiro rhai problemau datblygiadol, ond ar y cyfan roedd wedi cael ei ganmol. Mae pobl bellach yn gallu gwirfoddoli yn eu wardiau eu hunain. Y cam nesaf fyddai cynnal ymgyrch farchnata sylweddol ac awgrymodd yr Aelod Cabinet y dylai’r aelodau roi cynnig ar y porth a rhoi awgrymiadau.

- Nododd yr aelodau fod y Porth i Gyflogaeth wedi lansio ar 1 Ebrill 2018 a gofynnwyd beth oedd yr ymateb cychwynnol iddo. Gofynnodd yr aelodau hefyd am yr amserlen ar gyfer adolygu ac adrodd yn ôl i’r pwyllgor. Esboniodd y swyddogion ei bod wedi cymryd amser oherwydd bod angen trosglwyddo staff yn unol â rheoliadau TUPE a oedd wedi golygu llawer o waith ond bod y rhan fwyaf o swyddi bellach wedi’u llenwi. Bu’n ddechrau araf ond erbyn hyn gellir cynnig cyngor ar fudd-daliadau, cymorth a gwasanaethau i mewn i’r gwaith. Ychwanegodd y swyddogion y dylai ddod yn ôl i’r pwyllgor ar ddiwedd y flwyddyn galendr er mwyn galluogi’r gwasanaeth i wreiddio a darparu data ystyrlon.

- Gofynnodd yr aelodau i ba lefel y mae staff y gyfarwyddiaeth yn cael eu hyfforddi i roi cyngor ar ddyled.  Esboniodd y swyddogion bod staff yr Is-adran Cyngor ar Arian yn cael eu hyfforddi i roi cyngor ar ddyled lefel isel ond yng Ngwasanaeth Cynghori Caerdydd, ceir ymgynghorwyr dyled arbenigol sy'n rhoi cyngor manwl ynglŷn â materion megis methdaliad.

PENDERFYNWYD: y byddai barn y pwyllgor yn cael ei thrafod yn ystod adran 'y ffordd ymlaen' y cyfarfod ac y byddai llythyr yn cael ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

79 : ADEILADU CYMUNEDAU CRYF DRWY DDATBLYGU HYBIAU CYMUNEDOL YMHELLACH

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne, Aelod Cabinet - Tai a Chymunedau; Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol – Pobl a Chymunedau; Jane Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol  - Tai a Chymunedau; a Nicola Pitman, Rheolwr y Llyfrgell Ganolog, i'r cyfarfod.

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet gan y Cadeirydd i wneud datganiad lle dywedodd ei bod yn bleser ganddi gyflwyno'r cynnig i sefydlu Hybiau Lles Cymunedol a'i bod wedi'i chyffroi gan y cynnig i ddatblygu Hybiau Lles Cymunedol yng ngogledd a gorllewin y ddinas, gyda'r nod o bwysleisio ar les, ymgysylltu â'r gymuned a byw'n annibynnol.  Bydd yr Hybiau Lles Cymunedol yn cynnig amrywiaeth eang o gyngor byw'n annibynnol, yn cyfrannu at ragnodi cymdeithasol gan feddygon teulu ac yn cynnwys sefydliadau partner, grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr i ymgysylltu â'r gymuned, yn benodol pobl hŷn.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r aelodau am Adeiladu Cymunedau Cryf trwy ddatblygu hybiau cymunedol ymhellach, gan gynnwys newidiadau arfaethedig i lyfrgelloedd cangen a'r Llyfrgell Ganolog; yna gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr aelodau.

- Roedd yr aelodau'n ystyried bod y cynnig yn ddiddorol gyda'r Cyngor yn dewis llwybr datblygiadol yn lle cau llyfrgelloedd cangen.  Ychwanegodd yr aelodau fod pobl yn fwy ymwybodol o hybiau nawr ond bod cymunedau ar gael o hyd a fyddai'n tybio pa effaith byddai'r hybiau'n ei chael o ran darpariaeth llyfrgelloedd.

- Nododd yr aelodau fod grwpiau cymunedol eisoes yng ngogledd a gorllewin y ddinas sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau ac roeddent yn ystyried ei bod yn bwysig cydweithio â'r grwpiau hyn wrth ddatblygu unrhyw hybiau er mwyn osgoi dyblygu a sicrhau ymrwymiad y gymuned.  Dywedodd yr Aelod Cabinet ei bod wedi cwrdd â grwpiau cyfeillion yn yr Eglwys Newydd a Rhiwbeina a bod y cyfarfodydd wedi helpu i lunio ei meddyliau o ran y ffordd ymlaen. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet ei bod yn gobeithio diogelu a datblygu gwasanaethau trwy weithio gyda phartneriaid.  Ychwanegodd y swyddogion y byddent bob amser yn ymgynghori â'r cymunedau lleol am eu barn ar ddarparu gwasanaethau gan nad oedd unrhyw fodel a fyddai'n addas ar gyfer pob cymuned.  Y gobaith oedd y byddai ymgynghori'n helpu i annog cefnogaeth y gymuned.

- Nododd yr aelodau y pedair ardal hyb newydd a'r rolau Swyddogion Cynhwysiant newydd a gofynnwyd o ble daeth yr arian am y rhain. Dywedodd y swyddogion y byddai'r swyddi'n cael eu hariannu gan Grant Etifeddiaeth Cymunedau yn Gyntaf.

- Roedd yn dda gan yr aelodau weld bod yr angen am grwpiau megis pilates a chrefftau yn cael ei gydnabod a nodwyd y byddai angen talu'r fath grwpiau. Gofynnodd yr aelodau am gostau'r fath grwpiau/ddosbarthiadau. Dywedodd y swyddogion na fyddai pob grŵp/dosbarth am ddim; byddai angen i rai grwpiau/dosbarthiadau dalu ffi fach. Roedd cronfa ar gael hefyd ar gyfer llogi ystafelloedd.

- Cyfeiriodd yr aelodau at adolygiadau ardaloedd a gofynnwyd beth oedd yr amserlenni ar gyfer cyflawni'r rhain. Esboniodd y swyddogion y byddai swyddog yn cynnal yr adolygiad a byddai'r adolygiad yn gynhwysol ond nad oedd amserlen wedi'i phennu.

- Nododd yr aelodau fod angen ystyried materion megis cysylltiadau bysus mewn ardaloedd pellennig a rhoddwyd Pentyrch a Chreigiau fel enghreifftiau gan nodi bod bysus oddi yno yn mynd i'r Eglwys Newydd nid Radur. Cytunodd y swyddogion ac roeddent yn ystyried bod angen cysylltiadau a gwybodaeth ehangach ac y dylid darparu allgymorth mewn rhai achosion.

- Nododd yr aelodau nad oes gan bob ardal leoliad addas ar gyfer hyb ond mae gan bob ardal ysgolion a gofynnwyd a oedd ysgolion yn cael eu hystyried. Esboniodd y swyddogion y byddent yn rhoi ystyriaeth helaeth i gyfleusterau cymunedol mewn ysgolion; roedd tuedd tuag at greu Ysgolion Bro lle byddai'r cyfleusterau ar gael i'r gymuned ehangach y tu allan i oriau ysgol. Felly byddai ysgolion yn cael eu hystyried ond roedd yn bwysig edrych ar bob ardal i weld pa wasanaethau y byddai eu hangen yno.

- Gofynnodd yr aelodau a oedd yn debygol y byddai unrhyw gyllid cyfalaf ar gael yn y dyfodol ac fe'u hysbyswyd mai prin oedd y cyllid cyfalaf a oedd ar gael ond bod llawer o gyfleoedd grant posib i'w harchwilio.

- Cyfeiriodd yr aelodau at y gwasanaethau tai a datblygu posib gan ofyn am ragor o wybodaeth am hyn. Dywedodd y swyddogion na allai'r Cyngor ryddhau cyllid Cyfrif Refeniw Tai oni bai bod gwasanaeth diffiniadwy i denantiaid y Cyngor, e.e. ateb tai wedi'i adeiladu ar ben cyfleuster cymunedol. Ychwanegwyd bod rhai adeiladau'n rhestredig a bod angen buddsoddiad ynddynt, a bod angen gwella rhai, felly byddai'n werth archwilio'r opsiwn hwn.

- Gofynnodd yr aelodau a gynhaliwyd asesiad o'r effaith ar Safonau Llyfrgelloedd ac fe'u hysbyswyd na chynhaliwyd asesiad llawn ond gyda'r newidiadau, dim ond gwella perfformiad safonau fyddai'n bosib oherwydd bod y timau wedi cael eu hintegreiddio'n llawn. Hefyd, mewn perthynas â'r rhaglen ddigwyddiadau, byddai targedau ar gyfer hyn a byddai mwy ohonynt, felly byddai disgwyl cael gwell perfformiad yno hefyd.

- Gofynnodd yr aelodau am faint y timau llyfrgell newydd ac fe’u hysbyswyd nad oedd swyddogion wedi gwneud y penderfyniad terfynol o ran strwythur y timau newydd eto.  Yna gofynnodd yr aelodau faint byddai’r gostyngiad yn nifer y staff a dywedwyd wrthynt fod pob aelod o staff wedi cael ei friffio ac yr ymgynghorwyd â’r undebau.  Cafwyd ymatebion  cadarnhaol, awgrymiadau gwych a pheth ansicrwydd.  Nid oedd gan y swyddogion yr union niferoedd staff ond disgwylid arbed tua £200k.

- Gofynnodd yr aelodau am faint y Grant Etifeddiaeth a dywedodd y swyddogion y byddai angen iddynt gael y ffigurau a chyfleu’r wybodaeth i’r aelodau ar ôl y cyfarfod.

- Nododd yr aelodau y cyfeiriad at weithgareddau cymdeithasol gan ofyn a fyddai hyn yn cynnwys pobl hŷn ac yn galluogi canolfannau dydd i wneud cais am arian.  Esboniodd y swyddogion y byddai Swyddogion Cynhwysiant yn gweithio gyda’r gymuned; ni fyddai unrhyw rwystrau i bwy allai ymgeisio.

- Cyfeiriodd yr aelodau at gysylltiadau trafnidiaeth â hybiau ac roeddent yn ystyried y dylai staff fod yn ymwybodol a rhoi cyngor ar sut i gyrraedd hybiau, gan nodi bod angen i ddigwyddiadau fod yn hygyrch.  Cytunodd y swyddogion gan nodi y bu problemau ynglŷn â hyn a bod y rheiny wedi cael eu hamlygu. Ychwanegodd y swyddogion y dylai pobl allu cael mynediad i wasanaethau petaent yn cael eu darparu mewn rhagor o ardaloedd lleol.  Roedd y cyfraniad at yr ymagwedd Teithio Llesol yn bwysig fel yr oedd darparu gwasanaethau o fewn pellter cerdded.

PENDERFYNWYD: y byddai barn y pwyllgor yn cael ei thrafod yn ystod adran 'y ffordd ymlaen' y cyfarfod ac y byddai llythyr yn cael ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

80 : BUSNES Y PWYLLGOR

Rhoddwyd adroddiad am ohebiaeth ddiweddar i'r aelodau.

Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai Trafnidiaeth Cymru yn dod i siarad â’r pwyllgor a byddai adroddiadau diweddaru am bethau megis cynlluniau llawr yn rhan o’r cais cynllunio a fyddai’n cael ei gyflwyno yn yr haf.

Dywedwyd wrth yr aelodau y cynhaliwyd peilot yn ystod y cylch pwyllgor hwn i dreialu hepgor blaenadroddiadau yn y pecyn agenda.  Roedd y peilot hwn wedi’i drafod yn y Fforwm Cydgysylltu â Chadeiryddion fel rhan o ymarfer arbedion.  Gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau ynglŷn â’r peilot.

Roedd yr aelodau’n ymwybodol o Gof Corfforaethol ac roeddent yn ystyried bod y blaenadroddiadau’n dull defnyddiol o gyfeirio’n ôl at unrhyw waith blaenorol i graffu ar faterion.  Fodd bynnag, roedd yr aelodau o’r farn bod y peilot wedi gweithio’n dda ar gyfer y pynciau a ystyriwyd yn ystod y cylch pwyllgor hwn.  Gofynnodd yr aelodau i flaenadroddiadau yn y dyfodol hysbysu’r pwyllgor o waith craffu a phwyntiau allweddol blaenorol.

PENDERFYNWYD: Nodi'r adroddiad.

81 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

14 Mehefin 2018 am 4.30pm

Daeth y cyfarfod i ben am 4.01 pm